

# Cyngor Sir Penfro
# 4ydd Adroddiad Blynyddol ar Orfodi Rheolau Parcio Sifil

## Ebrill 2014 i Fawrth 2015

## Cyfarwyddiaeth Cludiant, Tai a'r Amgylchedd

**Gorfodi Rheolau Parcio Sifil – 4ydd Adroddiad Blynyddol 2014/15**

1af Rhagfyr 2015

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad
2. Strategaeth a Pholisi
3. Darpariaeth Barcio yn Sir Benfro
4. Ein Gwasanaethau
5. Gwasanaeth Gorfodi Rheolau Parcio Sifil
6. Perfformiad ac Ystadegau
7. Gwybodaeth Ariannol
8. Y Diweddaraf ar Arweiniadau 2013/14
9. Datblygiadau ac Arweiniadau'r Dyfodol

## 1.0 Cyflwyniad

gan y Cynghorydd Rob Lewis,
Llefarydd y Cabinet ar Briffyrdd, Cynllunio, Cludiant a Digwyddiadau o Bwys

Dyma’r pedwerydd adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gennym, yn unol â gofynion Deddf Rheoli Traffig 2004. Ei nod yw rhoi gwybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Sir Penfro’n gorfodi rheolau parcio ac yn cyflenwi ei wasanaethau cysylltiedig, a gosod y gwasanaeth yng nghyd-destun ein dyletswyddau a pholisïau rheoli rhwydweithiau ffyrdd eraill.

Rydym yn dal i orfodi cyfyngiadau parcio ar ac oddi ar y stryd ar holl ffyrdd yn y Sir ac yn holl feysydd parcio sydd ym meddiant y Cyngor. Cwmpas yr adroddiad hwn yw’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn neu sylwadau ar ein Adroddiad Blynyddol ar Barcio, cofiwch ddweud wrthym trwy ffonio 01437 764551 neu anfon e-bost atom yn parking@pembrokeshire.gov.uk. Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen ein Hadroddiad Blynyddol ar Barcio 2014-15.

## 2.0 STRATEGAETH A PHOLISI

### 2.1 Cefndir

Mae'r Weledigaeth Strategol yng Nghynllun Corfforaethol a Gwella'r cyngor yn pwysleisio hyrwyddo amgylchedd deniadol, iach a glân ac mae'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol yn derbyn bod rheoli traffig yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau defnyddio'r briffordd yn ddiogel, effeithiol a rhesymegol.

### 2.2 Polisi Codi Tâl

Cymeradwyodd y Cabinet ddiwygio Polisi Codi am Barcio Ceir ar 6 Hydref 2014 a bydd angen adolygu mwy arno'n dilyn penderfyniadau a wnaed yn y Cabinet ar 7 Gorffennaf 2015 (yn dilyn penderfyniad i gyflwyno taliadau newydd mewn meysydd parcio di-dâl penodol). Mae prisiau parcio ceir yn ystyried yr egwyddorion canlynol.

- Yr angen i hybu siopa;
- Yr angen i reoli traffig, gan gynnwys parcio ar y stryd a llif y traffig;
- Yr angen i reoli'r galw'n effeithiol;
- Natur lleoliad parcio a'i ddefnyddwyr, h.y. siopwr / busnes trefol, preswyl, siopwr tref wledig, traeth / ymwelwyr;
- Cymhariaeth gyda darparwyr eraill yn y cylch;
- Yr angen i annog defnyddio dulliau cludo mwy cynaliadwy, gan gynnwys cludiant cyhoeddus;
- Nid yw prisiau'n cael eu pennu'n gyfan gwbl er mwyn cael incwm;
- Ystyried darpariaeth y gyllideb gyllidol at ei gilydd (gwariant ac incwm) ar gyfer meysydd parcio;
- Rhagdybiaeth o blaid talu am welliannau trwy brisiau uwch.

Caiff yr egwyddorion hyn eu cymhwyso'n gyson, sy'n arwain at wahanol brisiau o le i le.

### 2.3 Rheoli'r Galw:

Ystyriwyd prisiau parcio ceir fesul lleoliad. Caiff prisiau parcio ceir yn Sir Benfro eu pennu i hybu siopwyr, sy'n debygol o fod angen mannau arhosiad byr. Pan fo galw mawr am barcio ceir a/neu ychydig o le, yna caiff cyfnodau a phrisiau parcio eu pennu'n ofalus i gael y trosiant gorau.

## 3.0 Darpariaeth Barcio yn Sir Benfro

### 3.1 Oddi ar y stryd

Bydd yr Awdurdod yn rheoli meysydd parcio i ddarparu ar gyfer defnyddwyr arhosiad byr ac arhosiad hir. Mae prisiau'n berthnasol yn unol â Pholisi'r Cyngor.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer pobl anabl yn unol â chanllawiau DfT.

### 3.2 Ar y Stryd

Mae'r Awdurdod yn darparu cyfleusterau parcio ar y stryd ar y briffordd gyhoeddus fabwysiedig pan fo'n briodol gwneud hynny heb ymyrryd yn ormodol ar draffig symudol. Mae'n darparu ar gyfer aros cyfyngedig, pobl anabl, llwytho, tacsis, beiciau modur a thrigolion.

Mae wedi datblygu arferion teg a chadarn i reoli ymyl y pafin er mwyn darparu ar gyfer gofynion yr amrywiol ddefnyddwyr sy'n cystadlu. Ni weithredwyd unrhyw gyfyngiadau heb orchymyn rheoleiddio traffig yn gefn iddynt.

## 4.0 Ein Gwasanaethau

### 4.1 Parcio Oddi ar y Stryd

Mae gan y Cyngor feysydd parcio talu a di-dâl; mae manylion ar wefan y cyngor www.pembrokeshire.gov.uk. Mae gan Gyngor Sir Penfro 97 o feysydd parcio, 32 ohonynt yn rhai talu ac arddangos. Rhaid talu mewn 18 ohonynt drwy gydol y flwyddyn a 14 yn dymhorol.

Rhwng 1af Ebrill 2014 a 31ain Mawrth 2015 cyhoeddwyd y canlynol
- 120 o docynnau tymor
- 107 o hawlenni cilfachau cadw
- 134 o hawlenni Harbwr Dinbych-y-pysgod.

Neilltuwyd isafswm o 6% o fannau ar gyfer deiliaid bathodynnau glas. Hepgorodd y Cyngor daliadau yn holl feysydd parcio talu ledled y Sir ar ddiwrnodau arbennig ym mis Rhagfyr yn y cyfnod cyn y Nadolig.

### 4.2 Ar y Stryd

Ar hyn o bryd mae 840 o fannau aros cyfyngedig, 127 o fannau i bobl anabl, 33 o fannau tacsi, 3 cilfach fysiau, 26 o gilfachau llwytho / dadlwytho nwyddau, 1 cilfach ambiwlans ac 1 cilfach beic modur. O fewn y mannau parcio at ei gilydd erys 668 o fannau ar gyfer Deiliaid Hawlenni Trigolion / Busnes.

### 4.3 Parcio Trigolion

Sefydlwyd Cynlluniau Parcio Trigolion, lle bo hynny'n ymarferol, mewn nifer o strydoedd / lleoliadau ledled y Sir. Ar hyn o bryd mae 58 o gynlluniau'n gweithredu, gyda rhestr lawn yn Atodiad 1. Caiff holl gynlluniau ar y briffordd gyhoeddus eu gweithredu dan yr un rheoliadau, un hawlen fesul eiddo ar gyfer cerbyd penodol. Mae hawlenni'n ddilys am gyfnod o hyd at 12 mis ac yn costio £40.00. Mae hawlenni ymwelwyr ar gael am gyfnodau hyd at 7 diwrnod am £20.00, eto un fesul eiddo ar gyfer cerbyd penodol. Rhaid rhoi tystiolaeth o ddeiliadaeth, yswiriant dilys a thystysgrif MOT.

Caiff cynllun oddi ar y ffordd ei weithredu yn Harbwr Dinbych-y-pysgod gydag un hawlen fesul eiddo ond heb fod yn benodol i gerbyd. Cost yr hawlen yw £100 ac nid yw wedi codi ers 2003.

Cyhoeddwyd 873 o hawlenni blynyddol rhwng 1af Ebrill 2014 ac 31ain Mawrth 2015 a 220 o hawlenni ymwelwyr.

4.4 Caniatâd Parcio

Trwy roi goddefeb, mae'r Cyngor yn caniatáu parcio cerbyd yn gyfreithlon yn groes i Orchymyn Rheoleiddio Traffig, dan rai amgylchiadau. Gall hefyd atal mannau parcio dros dro at ddibenion neilltuo'r mannau hynny i gerbydau a/neu geiswyr arbennig.

Bydd goddefebau'n cael eu rhoi trwy hawlen dros dro'n cynnwys manylion yr achlysur, rhif cofrestru'r cerbyd, dyddiad ac amser defnyddio. Rhaid arddangos yr hawlen yn amlwg ar ffenestr flaen y cerbyd cymeradwy.

Cyhoeddwyd 133 o oddefebau rhwng 1af Ebrill 2014 ac 31ain Mawrth 2015.

## 5.0 Gorfodi Rheolau Parcio Sifil

### 5.1 Parcio a Thimau Gofal Strydoedd

Cafwyd cryn fuddiannau gweithredol a chymunedol cymunedol trwy gyfuno rheoli a gorfodi rheolau parcio ar ac oddi ar y stryd. Ym mis Ebrill 2013, cyfunwyd tîm y Gwasanaeth Parcio a'r tîm Gofal Strydoedd dan un rheolwr gweithredol. Mae'r ddwy adran yn dal i fod â'u cylchoedd gwaith eu hunain; fodd bynnag, mae buddiannau'r gwasanaeth cyfunol hwn yn cynnwys y canlynol:

- Gorfodaeth a rheolaeth gydgysylltiedig o reolau parcio ar ac oddi ar y stryd
- Gorfodaeth gydgysylltiedig o holl faterion cysylltiedig â phriffyrdd
- Cydgysylltu gweithgareddau ar y rhwydwaith priffyrdd
- Rheoli a chydgysylltu achlysuron sy'n effeithio ar weithgareddau ar y stryd ac oddi ar y stryd
- Cydgysylltu gwaith trydydd-parti ar y briffordd
- Rheoli holl weithgareddau trwyddedig ar ac oddi ar y stryd
- Gweithredu polisïau'n fwy effeithiol

### 5.2 Gweithredu CPE

Ar hyn o bryd mae Sir Benfro'n cyflogi 12 o Swyddogion Gorfodi Sifil, 2 Glerc Technegol a 3 Swyddog Gwasanaethau Parcio; maent i gyd dan ofal y Rheolwr Parcio a Gofal Strydoedd. Nid ydynt yn derbyn unrhyw fonysau neu gymhellion cysylltiedig â pherfformiad.

Caiff rhybuddion talu cosb eu rhoi i fodurwyr sy'n parcio'u cerbydau'n groes i gyfyngiadau. Os yw modurwyr yn dymuno herio RhTC rhaid iddynt ddilyn y broses apelio sy'n cael ei manylu ar gefn y RhTC.

Ar ôl gweithredu CPE ers mis Chwefror 2011 mae staff y Gwasanaethau Parcio wedi dod i ddeall yn dda ymhle a phryd fydd parcio difeddwl yn

digwydd. Fodd bynnag, pan fo'r cyhoedd yn dioddef problemau parcio arbennig gallant eu hadrodd i'r swyddfa.

Mae'r tîm gwasanaethau parcio hefyd yn gyfrifol am reoli holl feysydd parcio, peiriannau Talu ac Arddangos, materion ariannol, Hawlenni Trigolion, Tocynnau Tymor a Chadw Meysydd Parcio, Caniatâd Parcio a Thrwyddedau Meysydd Parcio.

5.3 Y Swyddfa Gefn - Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (PPC Cymru)

Mae swyddfa gefn PPC Cymru'n dal i gael ei defnyddio i brosesu'r RhTC sy'n cael eu rhoi. Caiff cyfarfodydd chwarterol eu cynnal gyda chynrychiolwyr pob Awdurdod Partner, gweithgor swyddogion, i drafod cysondeb gweithredol, rhannu arferion gorau a cheisio arbedion effeithlonrwydd parhaol.

5.4 Asiantau Gorfodi

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn defnyddio gwasanaethau pedwar cwmni beili i adennill dyledion, sef Excel, Proserve, Swift ac A J Enforcement. Mae gan bob un ohonynt brofiad sylweddol o'r gwaith yma gan ddarparu gwasanaethau tebyg i gynghorau eraill PPC Cymru yn ogystal â'n partneriaid NEWID, sef Cyngor Sir Gâr, Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

## 6.0 Perfformiad ac Ystadegau

6.1 Perfformiad Ystadegol

Dengys y tablau isod ystadegau cysylltiedig â RhTC a roddwyd yn ystod y cyfnod rhwng **1af Ebrill 2014 ac 31ain Mawrth 2015.**

6.2 RhTC - Dilyniant Achosion

| | Nifer y RhTC a Roddwyd | % |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y RhTC an roddwyd** | **12901** | |
| | | |
| RhTC a roddwyd ar y stryd | 6505 | 51% |
| RhTC a roddwyd oddi ar y stryd | 6396 | 49% |
| | | |
| *Nifer y RhTC a dalwyd am bris rhatach* | 8917 | 69% |
| *Nifer y RhTC a dalwyd ar ôl 14 diwrnod* | *1590* | *12%* |
| *Nifer y RhTC na thalwyd* | *1164* | *9%* |
| *Nifer y RhTC a ddiddymwyd (gwelwch dabl 6.5)* | *1230* | *10%* |

6.3 Toriadau Rheolau Parcio ar y Stryd

| **Cod** | **Disgrifiad** | **RhTC a Roddwyd** | **%** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 01 | Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau penodedig | 1841 | 14% |
| 02 | Parcio neu'n llwytho / dadlwytho mewn stryd gyfyngedig lle mae cyfyngiadau aros a llwytho / dadlwytho mewn grym | 149 | 1% |
| 12 | Parcio mewn man parcio trigolion neu rannu defnydd heb arddangos hawlen yn amlwg a roddwyd ar gyfer y man hwnnw | 1844 | 14% |
| 16 | Parcio mewn man hawlen heb arddangos hawlen ddilys | 11 | |
| 18 | Defnyddio cerbyd mewn man parcio mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig neu ddangos nwyddau ar werth pan waharddwyd hynny | 0 | 0.9% |
| 20 | Parcio mewn bwlch llwytho a nodwyd gyda llinell felen | 0 | 0 % |
| 21 | Parcio mewn cilfach neu ran o gilfach a ataliwyd | 60 | 0.5% |
| 23 | Parcio mewn man parcio na ddynodwyd ar gyfer cerbyd o'r dosbarth hwnnw | 294 | 2.3% |
| 25 | Parcio mewn man llwytho yn ystod oriau cyfyngedig heb lwytho | 70 | 0.6% |
| 26 | Parcio mwy na 50 cm o ymyl y lôn gerbydau ac nid o fewn man parcio dynodedig | 34 | 0.26% |
| 27 | Parcio o flaen palmant isel | 248 | 2.0% |
| 40 | Parcio mewn man parcio rhywun anabl dynodedig heb ddangos bathodyn anabl dilys yn amlwg | 443 | 3.5% |
| 45 | Parcio mewn safle tacsis | 84 | 0.65% |
| 46 | Stopio lle gwaharddwyd hynny | 2 | 0.01% |
| 47 | Stopio mewn safle bysiau cyfyngedig | 42 | 0.3% |
| 48 | Stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol | 0 | 0% |
| 49 | Parcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar lwybr beicio | 4 | 0.03% |
| 56 | Parcio'n groes i gyfyngiad aros cerbydau masnachol | 0 | 0% |
| 62 | Parcio gydag un olwyn neu fwy ar ran o'r ffordd heblaw rhwng dwy lôn gerbydau | 0 | 0% |
| 99 | Stopio ar groesfan gerddwyr neu ardal a nodwyd gydag igam-ogam | 7 | 0.05% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 05 | Parcio ar ôl terfyn yr amser y talwyd amdano | 2 | 0.01% |
| 06 | Parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos dilys | 7 | 0.05% |
| 11 | Parcio heb dalu'r pris parcio | 0 | 0% |
| 19 | Parcio mewn man parcio trigolion neu ddefnydd ar y cyd gan arddangos hawlen annilys | 1 | 0.01% |
| 22 | Ailbarcio yn yr un man parcio o fewn cyn pen awr ar ôl ymadael | 1 | 0.01% |
| 24 | Heb barcio'n gywir o fewn marciau cilfach / man parcio | 19 | 0.14% |
| 30 | Parcio'n hwy na'r hawl | 1299 | 10.0% |

6.4 <u>Toriadau Rheolau Parcio Oddi ar y Stryd</u>

| **Cod** | **Disgrifiad** | **RhTC a Roddwyd** | **%** |
|---|---|---|---|
| 70 | Parcio mewn parth llwytho yn ystod oriau cyfyngedig | 0 | 0 |
| 73 | Parcio heb dalu'r pris parcio | 2 | 0.01% |
| 74 | Defnyddio cerbyd mewn man parcio mewn cysylltiad â gwerthu neu gynnig neu ddangos nwyddau ar werth pan | 2 | 0.01% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | waharddwyd hynny | | |
| 80 | Parcio'n hwy na'r cyfnod hwyaf a ganiateir | 39 | 0.3% |
| 81 | Parcio mewn ardal gyfyngedig mewn maes parcio | 18 | 0.14% |
| 82 | Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben | 1580 | 12.0% |
| 83 | Parcio mewn maes parcio heb ddangos tocyn neu daleb talu ac arddangos dilys yn amlwg | 3682 | 28.5% |
| 85 | Parcio mewn cilfach hawlen heb arddangos hawlen ddilys | 317 | 2.5% |
| 86 | Parcio y tu hwnt i'r marciau cilfach | 330 | 2.6% |
| 87 | Parcio mewn man parcio pobl anabl heb ddangos bathodyn dilys pobl anabl yn amlwg | 443 | 3.4% |
| 89 | Parcio cerbyd dros bwysau / uchder / hyd mwyaf yr ardal | 0 | 0% |
| 91 | Parcio mewn maes parcio na ddynodwyd ar gyfer cerbyd o'r dosbarth hwnnw | 12 | 0.1% |
| 92 | Parcio gan achosi rhwystr | 1 | 0.01% |
| 94 | Tocynnau lluosog | 1 | 0.01% |
| 95 | Parcio mewn man parcio at ddiben heblaw diben penodedig y man parcio | 11 | 0.1% |

6.5 RhTC a Ddiddymwyd

| | RhTC a Roddwyd | % |
|---|---|---|
| Nifer y RhTC a ddiddymwyd o ganlyniad i achos a derbyn yr her | 1018 | 8% |
| Nifer y RhTC a ddiddymwyd am resymau eraill (e.e. methu dod o hyd i'r perchennog, camgymeriad CEO, DVLA yn methu rhoi manylion) | 212 | 2% |
| | | 10% |

6.6 Cymharu

| | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Nifer y RhTC a roddwyd | 11866 | 12901 |
| Nifer y RhTC ar y stryd | 6138 | 6505 |
| Nifer y RhTC oddi ar y stryd | 5728 | 6396 |
| % y RhTC a ddiddymwyd | 14% | 10% |

6.7 Dyfarniadau (Tribiwnlys Parcio)

| | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|
| | | |
| Cyfanswm | 25 | 25 |
| Gwrthodwyd yr apêl | 20 (80%) | 21 (84%) |
| Derbyniwyd yr apêl | 5 (20%) | 4 (16%) |

## 7.0 Gwybodaeth Ariannol

7.1 Cyfrif Ariannol

Caiff data ariannol incwm a gwariant sy'n cael eu llywodraethu gan Adran 55 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 eu cyflwyno isod.

CRYNODEB ARIANNOL

| | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|
| Incwm | | |
| Hawlenni Parcio Trigolion (yn cynnwys trigolion ac ymwelwyr) | 31,375 | 38,316 |
| Caniatâd Parcio | 6.228 | 8,970 |
| Cosbau | 365,564 | 398,465 |
| Cyfanswm Incwm | £403,167.00 | £445,752.00 |
| Gwariant | | |
| Costau cyflogeion | 226,990 | 205,775 |
| Eiddo | 45,699 | 41,460 |
| Nwyddau a gwasanaethau | 65,432 | 16,552 |
| Cefnogaeth a rheolaeth | 95,492 | 99,535 |
| Taliadau eraill | 0 | 47565 |
| Taliadau Cyfalaf | 6,964 | 6,946 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwariant Llawn | £440,557 | £417,851 |
| (Gwarged) / Diffyg | £37,410.00 | £ (27,901.00) |

Nid yw’r wybodaeth ariannol a ddarparwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys y gweithgaredd oddi ar y stryd nad yw’n cael ei llywodraethu gan Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984.

## 8.0 Y Diweddaraf ar Arweiniadau 2014 / 2015

| Arweiniad | Cynnydd |
|---|---|
| Gorffen gwaith yn MSC Dinbych-y-pysgod | Gorffennwyd yr holl waith erbyn hyn |
| Adolygu TCC ar gyfer MSCP Hwlffordd | Gohiriwyd hyn i aros am adolygiad eto |
| Adolygu a gwneud argymhellion ar drefniadau gofalwyr ar y stryd | Rydym wedi adolygu’r llythyr a anfonwyd at sefydliadau gofalwyr; fodd bynnag, mae’n ymddangos bod angen mwy o eglurhad. Byddwn yn ymgysylltu mwy. |
| Dal i weithio ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Mae gorchymyn meysydd parcio PCAP mewn grym bellach. Buom yn gwneud gwaith gorfodi ym meysydd parcio PCAP yr haf hwn. Mae angen rhagor o waith o ran cydweithio hirdymor |
| Gweithredu prisiau meysydd parcio diwygiedig, fel y cytunwyd gan y Cabinet ar 6ed Hydref 2014 | Gweithredwyd y taliadau. Meysydd parcio Talu ac Arddangos ychwanegol i ddod i rym o 1af Chwefror 2016 ymlaen |
| Datblygu syniad y Pasbort Hawl Parcio | Cyflwynwyd y pasbort parcio yn 2015 a gwerthwyd rhyw 360 ohonynt |
| Adolygu Gwefan Cyngor Sir Penfro o ran CPE a meysydd parcio | Mae hyn ar y gweill, gwnaed newidiadau ond mae angen rhagor o waith |
| Creu cynllun rheoli asedau meysydd parcio | Mae hyn ar y gweill ac mae trafodaethau mewnol yn digwydd i nodi rhestri gwaith, gwariant ac incwm |

## 9.0 Datblygiad ac Arweiniadau'r Dyfodol

Yn 2015/16 bydd nifer o arweiniadau'n cael eu hystyried, naill ai'n dilyn gweithgaredd y llynedd a materion yn codi neu arweiniadau newydd, fel a ganlyn:

- Adolygu cyflwr maes parcio amrylawr Hwlffordd
- Dechrau codi am 6 o feysydd parcio ychwanegol
- Adolygu swyddogaeth bresennol swyddogion gorfodi rheolau parcio sifil
- Adolygu offer llaw presennol swyddogion gorfodi sifil
- Cyflwyno adroddiad ar effaith y taliadau i'w gyflwyno i'r Cabinet ac adolygiad eto o brisiau meysydd parcio
- Parhau gwaith ar Gyfnewidfa Doc Penfro
- Ehangu cyfleuster parcio ceir yng ngorsaf drenau Wdig
- Adolygu holl Hawlenni cyfredol

**Atodiad 1: Cynlluniau Parcio Trigolyn a Rhannu Parcio**

| |
|---|
| **Aberllydan**<br><br>Marine Road - ochr orllewinol |
| **Dale**<br><br>U6006 Dale Fort Road - ochr ddwyreiniol |
| **Abergwaun**<br><br>Wallis Street - ochr ddwyreiniol<br>Coronation Avenue |
| **Hwlffordd**<br><br>Bush Row - ochr ddwyreiniol<br>Albany Terrace - llain barcio |
| Cambrian Place - ochr ddwyreiniol |
| Cartlett - ochr ogleddol |
| Ardal Castle Town<br>North Street - ochr orllewinol<br>North Street - ochr ddwyreiniol<br>Holloway - ochr ogleddol<br>Queens Square - canol |
| Crowhill - ochr ddwyreiniol |
| Merlins Hill - ochr ogleddol |
| North Crescent - ochr orllewinol |
| Winch Crescent - ochr ddeheuol |
| **Aberdaugleddau**<br><br>Robert Street - ochrau gogledd a deheuol |
| **Neyland**<br><br>Neyland Hill - ochr ddeheuol |
| **Penfro**<br><br>Woodbine Terrace - ochr ddeheuol |
| **Doc Penfro**<br><br>Apley Terrace - ochr ddeheuol |
| Bush Street - ochrau gogledd a deheuol |
| Church Street - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Gordon Street - ochr orllewinol |
| Gwyther Street - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Laws Street - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Lewis Street - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Pembroke Street - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Upper Laws Street - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Upper Meyrick Street - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |

| |
|---|
| **Dinbych-y-pysgod**<br><br>Augustus Place (yn gwasanaethu rhifau 1-10) ac (yn gwasanaethu rhifau 11-18) |
| Clareston Road - ochrau gorllewinol a deheuol |
| Culver Park - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Greenhill Avenue - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Weston Terrace - ochr orllewinol<br>Harding Street - ochrau gogledd a deheuol |
| Harries Street - ochr orllewinol |
| Heywood Court - ochr orllewinol<br>Heywood Court - rhifau 74-85 ochr ogleddol; rhifau 48-64 ochr ddeheuol |
| Lower Frog Street - ochr ddwyreiniol |
| Park Place - ochrau gogledd a deheuol<br>Edward Street - ochr dde-ddwyreiniol<br>Park Terrace - ochr dde-ddwyreiniol |
| Penally Road - ochr ddwyreiniol |
| Picton Road - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Picton Terrace - ochr orllewinol |
| Queens Parade - ochr orllewinol |
| South Cliff Street - ochr ogleddol |
| St Florence Parade - ochr ddwyreiniol |
| St Johns Hill - ochr ogleddol |
| St Julian's Street - ochr ogledd-orllewinol |
| Sutton Street - ochr ddwyreiniol |
| The Croft - ochr ddwyreiniol |
| The Norton - ochr ddwyreiniol |
| The Paragon - ochr ddeheuol |
| Trafalgar Road - ochrau gogledd-orllewinol a de-ddwyreiniol |
| Victoria Street - ochrau gorllewinol a dwyreiniol |
| Warren Street - ochr ddeheuol |

**Cilfach Rhannu Parcio (Aros Cyfyngedig 1 awr, dim dychweld o fewn 1 awr, Llun-Sad 8am-6pm / Deiliaid Hawlen)**

| |
|---|
| **Doc Penfro**<br><br>Meyrick Street - ochr orllewinol |

**Cilfach Rhannu Parcio (Aros Cyfyngedig 1 awr, dim dychweld o fewn 1 awr 8am-6pm / Deiliaid Hawlen)**

| |
|---|
| **Hwlffordd**<br><br>Holloway - ochr ogleddol |
| North Street - ochr ddwyreiniol |
| Queens Square - canol |
| **Tyddewi** |

New Street - ochr ddwyreiniol